ETHOLIAD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL ELECTION

GOGLEDD TREF CAERFYRDDIN

CARMARTHEN TOWN NORTH

DYDD IAU, MAI 1af, 2008

PLEIDLEISIO 7y.b. - 10y.h.

THURSDAY, MAY 1st, 2008

VOTING - 7a.m. - 10p.m.

Plaid
PLAID CYMRU

Plaid
PLAID CYMRU

PETER HUGHES GRIFFITHS	X

GARETH OWEN JONES	X

Mae'r gwaith caled a'r hyn a gyflawnwyd gan eich dau Gynghorydd Plaid Cymru yn Ward y Gogledd dros y 4 blynedd ddiwethaf yn arbennig iawn. Mae eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r gwaith yn derbyn canmoliaeth uchel gan bawb.

GADEWCH I NI BARHAU GYDA'R GWAITH A CHEFNOGI TÎM Y BLAID.

The dedicated work and the achievements of your two Plaid County Councillors in the North Ward over the past 4 years has been second to none. Their commitment and hard work is widely acknowledged.

LET'S KEEP UP THAT GOOD WORK AND SUPPORT THE PLAID TEAM AGAIN.

GWEITHIO GYDA'N GILYDD DROS GAERFYRDDIN

LETS WORK TOGETHER FOR CARMARTHEN

RECORD CYNGHORWYR Y BLAID A'N BLAENORIAETHAU

Cadw mewn cysylltiad ag etholwyr. Yn gyson dros y 4 blynedd ddiwethaf dosbarthwyd **'Cylchlythyron'** a chynhaliwyd **Cymorthfeydd Stryd** ar hyd a lled y Ward. Rydym ni wedi gallu helpu nifer fawr iawn o bobl mewn gwahanol ffyrdd. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol.

Cadw Heol y Gwyddau ar agor. Gweithiodd Cynghorwyr Plaid Cymru'n galed i gadw Heol y Gwyddau ar agor fel rhan o ail ddatblygu safle'r Hen Fart yn y dref. Pleidleisiodd y Cynghorwyr Llafur ac Annibynnol i gyd dros ei chau. Pleidleisiodd Cynghorwyr Plaid Cymru i'w chadw ar agor ac yna trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ar eu costau eu hunain i wrthwynebu'r cau. Buont yn rhan o'r ymgyrch lwyddiannus 'Cadw Heol y Gwyddau Ar Agor'.

Cynlluniau Arafu Traffig. Bydd cynllun gwerth £10,000 i Arafu Traffig ar Heol Dôlgwili, tu allan i Ysbyty Glangwili, ac yn Heol Bronwydd, gyferbyn â Hafod Cwnin, yn ei le yn fuan. Talwyd amdano gan ddau Gynghorydd Plaid Cymru allan o'u cronfa lwfansau. Bydd cynllun tebyg yn dod i ardal Heol y Bragdy a Teras Waterloo yn fuan.

Datblygiad safle'r Hen Fart. Rydym ni wedi cadw llygad barcud ar y cynlluniau a'r effaith posibl ar y strydoedd a'r cartrefi sydd yn ymyl, ac yn dal mewn cyswllt cyson gyda phobl yr ardal o gwmpas.

Trafnidiaeth Ysgol. Byddai Plaid Cymru'n ymgyrchu i ddisgyblion i **gael teithio am ddim** o fewn y dref i'r ysgolion uwchradd er mwyn diogelwch a lleihau'r defnydd o geir er mwyn gwella'r amgylchedd.

Gwelliannau. Dros y 4 blynedd diwethaf cafodd nifer o stadau oleuadau stryd newydd, heolydd a phalmentydd newydd. Cafwyd gwell gwasanaethau bysiau lleol a chodwyd nifer o gysgodfeydd bysiau newydd gydag eraill i'w codi yn 2008/9 – i restri ond rhai ychwanegiadau o fewn y Ward.

Mwy o ddemocratiaeth. Rydym ni o blaid adolygiad llwyr o'r ffordd y mae'r Cyngor Sir yn cael ei redeg gan ein bod yn credu bod gormod o rym gan y Cabinet. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o sylw i wella gwasanaethau dydd i ddydd y Cyngor.

Ieuenctid. Byddem yn hyrwyddo mwy o 'Glybiau Ieuenctid' a 'Chynlluniau Helpu'r Ifanc' yn y dref ac mewn adeiladau addas.

Gofal. Rydym ni am ddatblygu gofal personol er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol a datblygu'r gwasanaeth sydd ar gael yn y Ganolfan Ddydd yn Heol Sant Ioan yn y dref.

Mae gan y Blaid 60 o ymgeiswyr yn yr etholiadau i Gyngor Sir Caerfyrddin ar Fai 1af. Mae angen ennill 37 sedd i reoli'r Cyngor. Plaid Cymru yw'r UNIG BLAID a all herio'r Grwp Llafur/Annibynnol. Gyda'ch cefnogaeth chi gallwn 'Symud Sir Gâr Ymlaen' yn yr etholiadau ar Fai 1af.

PLAID COUNTY COUNCILLORS' RECORD AND FUTURE PRIORITIES

Keeping in touch with our electors. On a regular basis over the past 4 years we have distributed '**Newsletters**' and held regular '**Street Surgeries**' throughout the North Ward. We have been able to help so many of you with local and personal issues. We will continue this important service in the future.

Keeping St. Catherine Street Open. Plaid Councillors were instrumental in keeping St. Catherine Street open as part of the Old Mart Site Development. All Labour and Independent Councillors voted to close it. Plaid Councillors voted to keep it open and arranged public meetings at their own cost to oppose the closure. We were then involved with the successful 'Keep St. Catherine Street Open' campaign.

Traffic Calming Schemes. A new £10,000 Traffic Calming Scheme will be in place soon at Dôlgwili Rd outside Glangwili Hospital and at Bronwydd Rd adjacent to Hafod Cwnin, paid for by the two Plaid Councillors from their 'fund allowances'. A similar Traffic Calming Scheme will soon be in place in Brewery Rd and Waterloo Terrace.

Old Mart Site Development. We have kept a very close eye on all plans and possible effect on surrounding streets and properties. We remain in close contact with residents in the area.

School Transport. Plaid would review the issue of allowing once again **Free School Transport** within the town of Carmarthen for safety reasons, with a reduction in the use of cars which will improve the environment.

Improvements. Over the last 4 years local improvements have included major new Street Lighting Schemes, new roadways and pavements in many estates, improved local bus services with new bus shelters with more to come in 2008/9.

More democracy. We need a thorough review of the democratic set up of the County Council as we believe that the 10 member Cabinet has far too much power. We would also concentrate on improving the Council's 'day to day services'.

Youth. We would promote more 'Youth Clubs' and 'Youth Support Schemes' within our communities in suitable buildings.

Care. We favour the development of personal care schemes to promote independent living and expand the services offered by the Myrddin Day Centre in St. John's Street.

Plaid has 60 candidates for the forthcoming County Council elections in Carmarthenshire on May 1st. 37 seats are needed to win control of the Council. Plaid is the ONLY PARTY that can challenge the Labour/Independent run Authority. With your help we can 'Move Carmarthenshire Forward.'

GARETH OWEN JONES

- Wedi byw yng nghanol tref Caerfyrddin ers 1985 ond â chefndir gwledig hefyd.
- Profiad helaeth ym myd addysg gan gynnwys cyfnod fel Dirprwy Brifathro yn arbenigo ar lês disgyblion a'u teuluoedd.
- Yn Ysgrifennydd Clwb Pêl-Droed Caerfyrddin ac yn Swyddog Llês y Clwb. Golyga hyn ofal bugeiliol am yr holl chwaraewyr sydd yn chwarae i'r clwb.
- Yn Gyn-Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd yn y dref ac yn Lywodraethwr ar Ysgol Uwchradd leol.
- Fel athro Daearyddiaeth mae prif ddiddordebau Gareth yn cynnwys effeithiau datblygiadau trefol a hefyd bod ein pobl ifanc yn cael cyfle i fyw ac i weithio yn lleol.

- *A resident of Carmarthen since 1985 but also with a background in rural west Wales.*
- *Vast experience in the field of education including a period as Deputy Headmaster specialising in the welfare of pupils and their families.*
- *Secretary of Carmarthen Town Football Club and the Club's Welfare Officer. This means providing care for all the players at the Club.*
- *Past Chair of Governors of a Carmarthen Primary School and current Governor of local Secondary School.*
- *As a Geography teacher, Gareth has a keen interest in the effects of urban development and also in ensuring that our young people can find work and housing locally.*

SUPPORT AND VOTE FOR THE PLAID TEAM ONCE AGAIN

CEFNOGWCH A PHLEIDLEISIWCH I DÎM Y BLAID UNWAITH ETO

PETER HUGHES GRIFFITHS

- Arweinydd Cynghorwyr Plaid Cymru ar Gyngor Sir Caerfyrddin.
- Aelod blaenllaw o Gyngor Tref Caerfyrddin ers blynyddoedd lawer a chyn Faer y dref bedair gwaith.
- Darlledwr ac awdur llyfrau. Aelod o Gapel y Priordy.
- Ymgyrchydd profiadol er mwyn sicrhau gwell adnoddau a gwasanaethau yn y dref ac wedi cynrychioli Ward y Gogledd ar Gyngor Sir Caerfyrddin ers pedair blynedd fel rhan o dîm Cynghorwyr Plaid Cymru.
- Derbyniodd anrhydedd Cymrawd o Goleg y Drindod yn ddiweddar am ei gyfraniad i'r gymdeithas leol a Chymru'n gyffredinol.

- *Leader of Plaid Councillors on Carmarthenshire County Council.*
- *Long standing Town Councillor and Mayor of the Town on four occasions.*
- *A broadcaster and author. Member of Priordy Chapel.*
- *An experienced campaigner for improved facilities and services in the town having served the North Ward on Carmarthenshire County Council for the last four years as part of the Plaid team of councillors.*
- *Recently presented with the Fellowship of Trinity College Carmarthen for his contribution in the local community and to Wales.*

Os am ddarllen Maniffesto'r Blaid 'Symud Sir Gâr Ymlaen' a chael mwy o wybodaeth am ymgeiswyr, ewch i:

www.plaidsirgar.org

Read Plaid Cymru's Manifesto 'Moving Carmarthenshire Forward' plus the latest information on candidates by visiting:

www.plaidsirgar.org

Cyhoeddwyd gan PH Griffiths & Gareth O Jones, 20 Waundew, Caerfyrddin ac argraffwyd gan Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin.
Published by PH Griffiths and GO Jones, 20 Richmond Terrace, Carmarthen and printed by Lewis Printers, Carmarthen.